OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 585 (Cy. 135)

# HARBYRAU, DOCIAU, PIERAU A FFERÏAU, CYMRU

## Gorchymyn Adolygu Harbwr Abertawe (Cau Doc Tywysog Cymru) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *24 Mai 2022* |
| *Yn dod i rym - -* | *26 Mai 20222* |

Yn unol ag adran 14(**1**) o Ddeddf Harbyrau 1964(1) ("y Ddeddf"), mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud mewn perthynas â harbwr sy'n cael ei wella, ei gynnal neu ei reoli gan awdurdod harbwr wrth arfer a chyflawni pwerau a dyletswyddau statudol, i gyflawni amcanion a bennir yn Atodlen 2 i'r Ddeddf(**2**).

Mae Associated British Ports, sef yr awdurdod harbwr ar gyfer Porthladd Abertawe, wedi gwneud cais yn unol ag adran 14(2)(a) o'r Ddeddf am orchymyn adolygu harbwr o dan adran 14 o'r Ddeddf.

Mae swyddogaethau'r Gweinidog priodol at ddiben yr adran honno wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru(**3**).

Mae hysbysiad wedi ei gyhoeddi yn unol â gofynion paragraff 10 o Atodlen 3 i'r Ddeddf ac mae darpariaethau paragraffau 15 a 17 o Atodlen 3 i'r Ddeddf wedi eu bodloni. Ni wnaed dim gwrthwynebiadau i'r cais.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 14(1) a (3) o'r Ddeddf, a chan eu bod yn fodlon bod gofynion adran 14(2)(b) a (2B) o'r Ddeddf honno wedi eu bodloni, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

(**1**) 1964 p. 40. Diwygiwyd adran 14 gan adran 18 o Ddeddf Trafnidiaeth 1981 (p. 56), paragraffau 2 i 4(1) a 14 o Atodlen 6 iddi, ac adran 40 ac Atodlen 12 (Rhan 2) iddi; adran 63(1) o Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 (p. 42) a pharagraff 1 o Atodlen 3 iddi; gan reoliad 2 o O.S. 2006/1177 a'r Atodlen (Rhan 1) iddo; gan adran 36 o Ddeddf Cynllunio 2008 (p. 29) a pharagraffau 8 a 9 o Atodlen 2 iddi; a chan erthygl 2 o O.S. 2009/1941 a pharagraff 12 o Atodlen 1 iddo.

(**2**) Diwygiwyd Atodlen 2 yn berthnasol gan baragraff 9 o Atodlen 3 i Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 (p. 42); adrannau 36(4) a 50(1) o Ddeddf Dociau a Harbyrau 1966 (p. 28); adrannau 58(7), 101(1), 141(6), 160(1)(2)(4), 163, 189(4) i (10), 190, a 193(1) o Ddeddf Dŵr 1989 (p. 15), paragraff 31(1) o Atodlen 25 iddi, a pharagraffau 3(1)(2), 17, 40(4), 57(6) a 58 o Atodlen 26 iddi; a rheoliad 2 o O.S. 2006/1177 a'r Atodlen (Rhan 1) iddo.

(**3**) Adran 29(1) a (2)(b)(ii) o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4), yn ddarostyngedig i baragraff 1(1) o Atodlen 1 i O.S. 2018/278.